# Adroddiad Arolygu

**Cylch Meithrin Rhaeadr**

**Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Rhaeadr**
**Bryntirion**
**Rhaeadr Gwy**
**LD6 5LT**



Adroddia ... heb ei

## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

26/9/2022

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***
*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Chylch Meithrin Rhaeadr

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal dydd i blant<br>Gofal dydd llawn |
| Darparwr cofrestredig | Cylch Meithrin Rhaeadr |
| Lleoedd cofrestredig | 19 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru | Dyma'r arolygiad cyntaf ers cofrestru |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Digonol** |

Am fwy o wybodaeth am sgoriau, gweler diwedd yr adroddiad hwn.

## Crynodeb

Mae'r plant yn mwynhau eu hamser yng Nghylch Meithrin Rhaeadr. Maent yn teimlo'n ddiogel, yn hapus ac wedi ymlacio ac maent wedi datblygu ymrwymiadau hoffter cadarn. Mae'r plant yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn gweithgareddau a chwarae, yn ogystal â gallu dilyn eu diddordebau eu hunain. Mae'r plant yn annibynnol ac yn cael dewisiadau a chyfleoedd i fynegi barn wrth iddynt gyfrannu at y broses gynllunio a syniadau chwarae.

Mae'r staff gofal yn sicrhau bod y plant yn derbyn gofal da. Maent yn dilyn arferion glanhau a hylendid priodol ac yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw a diogelwch personol. Mae'r staff gofal yn dangos caredigrwydd a chynhesrwydd ac yn ymgysylltu â'r plant mewn ffordd gadarnhaol. Maent yn adnabod y plant, eu hanghenion a'u hoffterau, ac yn sicrhau eu bod yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn gosod canllawiau clir i sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldebau. Maent yn cynnig ystod eang o adnoddau da i ddiwallu anghenion a chyfnodau datblygiad unigol y plant.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad weledigaeth arloesol ar gyfer y gwasanaeth ac maent yn ei reoli'n gymharol dda. Maent yn sicrhau bod y staff yn cael eu cefnogi'n dda. Nid yw'r system ar gyfer goruchwylio ac arfarnu staff wedi'i gweithredu'n llawn ac nid oedd rhai dogfennau gofynnol i'w canfod yn ffeiliau'r staff. Cymraeg yw'r brif iaith a ddefnyddir ac mae'r gwasanaeth yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

**Llesiant** **Da**

Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i wneud dewisiadau a phenderfyniadau ac i fynegi eu barn. Maent yn cyfathrebu'n hyderus gyda'r staff gofal a'u cyfoedion, a rhoddir ystyriaeth i'w dymuniadau, eu hwyliau a'u hanghenion. Er enghraifft, gofynnodd y plant am fwy o ffrwythau a dŵr yn ystod amser byrbryd, a rhoddwyd y rhain iddynt. Mae'r plant yn ymdopi'n dda ag ymwahaniad oherwydd bod cyfnodau pontio dyddiol cyson yn cydnabod ac yn cefnogi anghenion unigol. Rhoddir amser iddynt ymgartrefu a chânt eu cefnogi i ymuno pan fyddant yn barod. Mae'r plant yn cyfrannu at y broses gynllunio a syniadau ar gyfer gweithgareddau yn ystod y tymor. Caiff barn a diddordebau'r plant eu gwerthfawrogi, gan sicrhau eu llesiant unigol.

Mae'r plant yn hapus ac wedi ffurfio cydberthynas dda gyda'r staff gofal a'u cyfoedion. Maent yn fywiog ac yn mynegi brwdfrydedd a mwynhad. Mae ganddynt ymdeimlad o berthyn ac mae'n amlwg eu bod yn gyfarwydd â threfniadau arferol. Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus ac yn hoffi'r rhyddid o gael dewis aros dan do neu symud i'r ardal awyr agored. Yn yr un modd, mae'r plant hefyd yn annibynnol wrth benderfynu pryd i fynd i'r toiled. Mae'r plant yn rhyngweithio'n hyderus ac yn agored, ac maent yn cydweithio ac yn cymdeithasu mewn modd cyfeillgar. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn deall sut i gymryd eu tro ac i aros a rhannu. Mae'r rhyngweithio rhwng y plant a'r staff gofal yn dangos bod y plant yn datblygu sgiliau cyfathrebu da, ac maent yn mynd at y staff i gael sicrwydd neu gymorth.

Mae'r plant yn ddysgwyr gweithgar a chwilfrydig ac yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn gweithgareddau. Maent yn dangos diddordeb a chyffro ac yn mwynhau cymryd rhan a chwblhau tasgau a gweld y canlyniadau. Gwelsom ddau blentyn yn mwynhau trwsio bysiau pren bach gan ddefnyddio'r sgriwiau, bolltau a sbaneri, gan esbonio i'w ffrindiau beth oedd angen iddynt ei ddefnyddio ac aros i gymryd eu tro. Maent yn mwynhau amrywiaeth dda o gyfleoedd diddorol a chânt y rhyddid i ddewis gweithgareddau a symud o amgylch y lleoliad, o dan do ac yn yr awyr agored, i gwblhau jig-sos, i beintio, ac i adeiladu. Caiff y plant gyfleoedd da a chyson i ddatblygu sgiliau corfforol, cymdeithasol ac emosiynol a gallant ddilyn eu diddordebau yn llwyddiannus.

Cefnogir y plant i feddwl am yr hyn y maent yn ei wneud ac mae ganddynt brofiad da o gwestiynau pen agored a chaeedig syml. Er enghraifft, wrth drafod stori'r “Tri Mochyn Bach”, gallai plentyn nodi pa ddeunyddiau fyddai’n cael eu defnyddio i adeiladu’r tai, sawl mochyn oedd yn y stori, a pha gymeriad oedd yn dod i ddinistrio’r tŷ. Caiff y plant lawer o gyfleoedd i ddechrau eu gweithgareddau chwarae eu hunain ac i ddylanwadu ar eu tasgau a'u gweithgareddau gan fod yna gydbwysedd da o weithgareddau sydd o dan arweiniad plant a rhai sydd dan arweiniad oedolion. Maent yn cymryd rhan yn hapus yn y gweithgareddau y mae'r staff yn eu paratoi, ond maent hefyd yn dewis archwilio'r ardaloedd eraill. Gwelsom rai plant yn mwynhau'r gweithgareddau crefft a osodwyd allan ar eu cyfer,

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

sef paentio llun deinosor, tra oedd plant eraill yn mwynhau tacluso ac ad-drefnu'r gornel grefftau.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae'r staff gofal yn deall ac yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, gweithgareddau corfforol, diogelwch personol a llesiant. Maent yn gweithio'n ddigonol i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach, gan gynnig ystod o fyrbrydau iachus, cyfleoedd i olchi dwylo yn rheolaidd, a darparu dŵr gydol y sesiwn. Maent yn atgoffa'r plant i gadw'n ddiogel. Er enghraifft, maent yn atgoffa'r plant yn rheolaidd i beidio â rhedeg o dan do. Mae'r staff gofal yn gweithredu arferion glanhau a hylendid sy'n briodol. Er enghraifft, yn ystod y broses o newid cewynnau, mae'r staff gofal yn gwisgo'r cyfarpar diogelu personol cywir ac yn sychu'r arwynebau â chwistrell gwrthfacterol.

Mae'r staff gofal yn cefnogi'r plant i siarad neu i fynegi eu hunain yn dda gan eu bod yn derbyn rhyngweithiad cyson. Maent yn ymateb i geisiadau a chwestiynau'r plant, gan egluro eu hatebion mewn iaith ar lefel briodol i sicrhau bod pob plentyn yn deall. Rhoddir blaenoriaeth i ddiogelu, ac mae gan y rhan fwyaf o'r staff gofal ddealltwriaeth dda o'u cyfrifoldebau i amddiffyn y plant. Fodd bynnag, nid yw pob aelod o staff yn gwybod beth yw'r broses y dylid ei dilyn wrth ymdrin â honiad yn erbyn yr unigolyn cyfrifol, ac nid oedd yr holl staff wedi cwblhau hyfforddiant 'Prevent' ar radicaleiddio.

Mae'r staff gofal yn deall y polisi rheoli ymddygiad ac yn gweithredu strategaethau rheoli ymddygiad cadarnhaol yn gyson. Maent yn canmol y plant yn rheolaidd ac yn defnyddio technegau tynnu sylw yn effeithiol. Er enghraifft, pan oedd dau blentyn eisiau'r un tegan, siaradodd y staff â'r plant am rannu, gan gynnig tegan tebyg fel dewis arall. Mae'r staff gofal yn fodelau rôl da ac maent yn gyson ymatebol; maent yn gwrando ac yn parchu barn y plant. Mae'r rhyngweithiadau yn gadarnhaol ac yn cyfleu cynhesrwydd a charedigrwydd.

Mae'r staff gofal yn cynnig ystod eang o weithgareddau chwarae a dysgu sy'n briodol i oedran a datblygiad y plant sydd yn eu gofal. Maent yn dechrau datblygu dull cynllunio ar gyfer y cwricwlwm newydd i Gymru. Maent yn nodi camau nesaf y plant ac yn adolygu eu cynnydd yn rheolaidd gan ddefnyddio llyfrau arsylwi ar gyfer pob plentyn. Maent yn sicrhau bod y plant yn cymryd rhan yn y broses gynllunio ac maent yn ymwybodol o'r hyn y mae angen ei gynllunio er mwyn sicrhau cynnydd pellach. Maent yn rhoi gofal a chyfleoedd addas i'r plant sydd ag anghenion ychwanegol ac yn darparu ar eu cyfer trwy gydweithio ag asiantaethau allanol er mwyn cefnogi'r plant a'u teuluoedd ymhellach. Roedd enghreifftiau da o gyfathrebu effeithiol rhwng y staff gofal a'r rhieni/gofalwyr wrth i ofynion unigol y plant gael eu hystyried a'u parchu.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

| Yr Amgylchedd | Da |
|---|---|

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel a’i fod yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, o dan do ac yn yr awyr agored. Maent yn cwblhau gwiriadau diogelwch yn rheolaidd ac yn sicrhau yr ymdrinnir ag unrhyw faterion. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cwblhau ystod o asesiadau risg effeithiol a chywir sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd ac y gweithredir arnynt. Mae asesiadau risg tân ar waith a chydymffurfir â nhw, a chynhelir ymarferion tân rheolaidd er mwyn sicrhau bod pawb yn gwybod sut i adael y lleoliad mewn argyfwng. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod cymarebau staff gofal yn gywir a'u bod yn goruchwylio'r plant yn dda iawn. Maent yn amlygu risgiau posibl ac yn atgoffa'r plant i fod yn ymwybodol o sut maent yn defnyddio'r lleoliad.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod gan yr amgylchedd le chwarae da o dan do i'r plant symud o gwmpas yn rhydd. Maent yn sicrhau bod yr amgylchedd yn diwallu anghenion y plant ac yn eu galluogi i gyrraedd eu llawn botensial. Maent yn cynnig ystod o ardaloedd, gan gynnwys ardal synhwyraidd ac ardal greadigol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod unrhyw le chwarae yn yr awyr agored yn cael ei ddefnyddio mor aml â phosibl. Maent yn ymestyn gwybodaeth a datblygiad y plant yn yr awyr agored trwy gynnig ystod dda o adnoddau ac ymweliadau cyson â'r goedwig. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn trefnu'r amgylchedd yn dda fel ei fod yn darparu ystod dda o gyfleoedd chwarae sy'n addas ar gyfer ystod oedran y plant y gofelir amdanynt. Maent yn sicrhau y gall y plant gael mynediad i deganau ac adnoddau o silffoedd agored a storfa lefel isel. Mae'r safle yn groesawgar ac yn gynnes ac yn hygyrch i bawb.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y plant yn gallu cael mynediad at adnoddau o ansawdd da.  Mae amrywiaeth eang o ddodrefn, teganau ac offer sy'n addas i'w hoedran i ysgogi diddordeb a dychymyg y plant. Er enghraifft, mae adnoddau byd bach, chwarae rôl ac adeiladu ar gael. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu adnoddau da i hyrwyddo chwilfrydedd y plant am y byd o'u cwmpas ac i hyrwyddo byd natur. Er enghraifft, mae llawer o'r teganau a'r adnoddau wedi'u gwneud o ddeunyddiau naturiol. Mae'r amgylchedd hefyd yn darparu ardaloedd ar gyfer storio gwaith papur yn gyfrinachol, paratoi byrbrydau addas, a chynnal trafodaethau cyfrinachol gyda rhieni, gofalwyr ac ymwelwyr.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Digonol** |
|---|---|

Mae’r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ymroddedig i wneud gwelliannau parhaus ac maent yn rheoli ac yn rhedeg y gwasanaeth mewn modd brwdfrydig. Mae datganiad o ddiben cynhwysfawr sy'n adlewyrchu arferion cyfredol y lleoliad ac yn caniatáu i rieni wneud penderfyniad gwybodus.

Mae'r staff gofal yn ymgorffori polisïau’n effeithiol wrth redeg y lleoliad. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn rheoli'r staff yn briodol ac yn sicrhau eu bod yn cael eu lleoli mewn modd trefnus er mwyn i gymarebau staffio ac anghenion y plant gael eu diwallu'n llawn. Cadarnhaodd y staff gofal eu bod yn cael eu cefnogi'n dda iawn yn eu rolau a bod polisi drws agored ar waith os bydd unrhyw faterion yn codi. Nid yw perfformiad yn cael ei reoli yn effeithiol bob amser. Nid yw sesiynau goruchwylio neu arfarniadau i bob aelod o staff gofal wedi bod yn cael eu cwblhau'n rheolaidd. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn dilyn prosesau recriwtio trylwyr i ddiogelu'r plant gan amlaf. Maent yn sicrhau bod y rhan fwyaf o'r staff yn cael gwiriadau addasrwydd cyfredol. Maent yn darparu gweithdrefn sefydlu dda ar gyfer staff newydd, ac maent yn hyrwyddo hyfforddiant parhaus ar gyfer datblygiad proffesiynol. Fodd bynnag, nid oedd rhai dogfennau gofynnol i'w canfod yn ffeiliau'r staff, megis hanes gwaith blaenorol, datganiadau iechyd meddygol a gwiriadau adnabod. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Mae gan y staff gofal gymwysterau addas ac maent wedi mynychu hyfforddiant ychwanegol, megis cymorth cyntaf pediatrig, hylendid bwyd a diogelu. Fodd bynnag, nid ydynt wedi cwblhau hyfforddiant ar-lein y ddyletswydd Prevent ar radicaleiddio. Mae adolygiad cyflawn o ansawdd y gofal ar waith sy'n ystyried barn defnyddwyr y gwasanaeth ac yn nodi ffyrdd ar gyfer datblygu yn y dyfodol. Roedd y staff a oedd yn bresennol yn ystod yr arolygiad yn cydweithio'n dda fel tîm, ac roedd pob un ohonynt yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau ac yn arwain y plant yn briodol.

Mae’r partneriaethau â’r rhieni yn dda. Mae'r staff gofal yn egluro eu bod yn cael trafodaethau rheolaidd gyda'r rhieni pan fyddant yn gollwng a chasglu eu plant. Maent hefyd yn defnyddio tudalen gyfrinachol ar y cyfryngau cymdeithasol i rannu ffotograffau. Anfonir cofnodion arsylwi a datblygiadol adref at rieni pan fydd y plant yn gadael y lleoliad. Cynhaliodd y lleoliad noson wybodaeth agored i rieni yn ddiweddar hefyd er mwyn trafod y cwricwlwm newydd i Gymru ac i rannu gwybodaeth a datblygiadau gyda'r rhieni. Mae rhieni'r plant sy'n defnyddio'r lleoliad yn dweud wrthym fod y staff yn gyfeillgar ac yn groesawgar. Maent yn dweud wrthym fod y plant yn edrych ymlaen at gael mynychu pob

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

sesiwn a'u bod yn mwynhau eu diwrnod yn y cylch. Dywed y rhieni wrthym fod adnoddau'n amrywiol a bod yr ardal awyr agored yn wych.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

**Argymhellion i fodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol**

A1 Parhau i wreiddio a datblygu dull cynllunio'r cwricwlwm newydd i Gymru

A2 Adolygu gweithdrefnau diogelu ehangach gyda'r staff gofal

A3 Sicrhau bod y staff yn cwblhau hyfforddiant y ddyletswydd Prevent ar radicaleiddio

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

| Crynodeb o'r Diffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae’n rhaid i’r darparwr gymryd camau brys i fynd i’r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae’n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio’r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o’r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo’r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio’r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

| Maes/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 29 | Nid yw'r darparwr yn cydymffurfio gan fod yn rhaid iddo sicrhau bod pob gweithiwr sy'n gofalu am y plant yn cael ei oruchwylio a'i arfarnu'n rheolaidd. | Newydd |
| 28 | Nid yw’r unigolyn cyfrifol wedi sicrhau bod yr holl wybodaeth ofynnol wedi’i choladu yn ffeiliau cyflogaeth y staff. Mae angen i’r unigolyn cyfrifol gasglu’r holl wybodaeth ofynnol er mwyn pennu addasrwydd aelodau staff i ddiogelu plant. | Newydd |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

| Sgoriau | Ystyr y sgoriau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Dyma wasanaethau sy’n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy’n arwain y sector. Mae’r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella’n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant, ac yn hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i’w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni’r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i’w gwella na chryfderau a lle mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy’n effeithio’n negyddol ar lesiant plant. Pan fydd gwasanaethau’n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn dyroddi hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad cyhoeddi** Insert_Report_Published_Actual_Donot_Delete

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi